OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 1333 (Cy. 270)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU HADAU, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -	*12 Rhagfyr 2022*
Gwnaed - - - -	*13 Rhagfyr 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -	*15 Rhagfyr 2022*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2022.

Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012

2.—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff A1 (dehongli)—

(i) yn y diffiniad o "pla cwarantin parth gwarchodedig", yn lle ""pla cwarantin parth gwarchodedig" ("*protected zone quarantine pest*")" rhodder ""pla cwarantin ardal sy'n rhydd rhag plâu" ("*PFA quarantine pest*")";

(ii) yn y diffiniad o "PRHG", yn lle "yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr";

(iii) yn y diffiniad o "pla cwarantin yr Undeb", yn lle ""pla cwarantin yr Undeb" ("*Union quarantine pest*")" rhodder ""pla cwarantin Prydain Fawr" ("*GB quarantine pest*")".

(**1**) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority".

(**2**) O.S. 2012/245 (Cy. 39). Mewnosodwyd paragraff A1 o Atodlen 2 gan O.S. 2020/833 (Cy. 182). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) ym mharagraffau 15, 28, 42 a 50 (gofynion cnydau a hadau), ym mhob lle y maent yn digwydd—

(i) yn lle "parth gwarchodedig" rhodder "ardal sy'n rhydd rhag plâu";

(ii) yn lle "yr Undeb" rhodder "Prydain Fawr".

Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

3.—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "PRHG", yn lle "yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr".

Dirymu

4. Mae Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 wedi eu dirymu(**4**).

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

13 Rhagfyr 2022

(**3**) O.S. 2017/691 (Cy. 163). Mewnosodwyd y diffiniad o "PRHG" gan O.S. 2020/833 (Cy. 182). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2022/1021 (Cy. 217).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.